



Disgrifiad Swydd: Swyddog Adnoddau Dynol a Gweinyddol

Teitl y Swydd:	Swyddog Adnoddau Dynol (AD) a Gweinyddol
Cyflog:	£24,000 y flwyddyn pro rata
Hyd y Swydd:	Cyfnod penodol o 6 mis (gyda'r posibilrwydd o estyniad)
Oriau gwaith:	15 awr yr wythnos / gweithio'n hyblyg
Dyddiad cychwyn:	Ebrill 2022
Lleoliad:	Hyblyg (Gweithio o'r cartref/ ar brydiau yn swyddfa Caerdydd ar gyfer cyfarfodydd tîm)
Rheolwr Llinell:	Swyddog y Rhaglen

**Ar hyn o bryd mae ein tîm cyfan yn gweithio wythnos waith hyblyg (30 awr) pedwar diwrnod o hyd (Dydd Llun – dydd Iau fel rheol)*

Gwybodaeth am Cynnal Cymru – Sustain Wales

Mae Cynnal Cymru- Sustain Wales yn fudiad dielw sy'n darparu cyngor, hyfforddiant a chysylltiadau a fydd yn helpu sefydliadau droi eu hamcanion cynaliadwyedd yn weithredoedd.

Ni yw partner swyddogol y [Prosiect Llythrennedd Carbon](#) yng Nghymru, a phartner achrededig y [Cyflog Byw go iawn](#) yng Nghymru. Mae ein tîm o arbenigwyr cynaliadwyedd yn gweithio i gefnogi sefydliadau ar draws tri maes rhaglen craidd: (i) yr economi carbon isel, (ii) yr amgylchedd naturiol a (iii) cymdeithas deg a chyfiawn.

Y Cyflog Byw

Mae'r Cyflog Byw Go Iawn yn gyfradd yr awr sy'n cael ei gyfrifo'n annibynnol yn unol â chostau byw, ac yn cael ei gyhoeddi yn flynyddol ym mis Tachwedd yn ystod Wythnos Cyflog Byw, sef dathliad blynyddol rhwydwaith sy'n tyfu, a sy'n cynnwys bron 9,000 o Gyflogwyr Cyflog Byw yn y DU.

Mae'r Living Wage Foundation a'i bartneriaid yng Nghymru ac yn yr Alban yn dathlu cyflogwyr sy'n dewis, o'u gwirfodd, talu'r Cyflog Byw Go Iawn drwy gynllun achredu sy'n cydnabod ymrwymiad hirdymor at dalu cyflog teg, a sydd wedi sicrhau codiad cyflog i dros 300,000 o weithwyr cyflog isel.

Mae'r nifer o sefydliadau Cyflog Byw ledled Cymru yn tyfu, ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl y Cyflog Byw go iawn fel rhan o'r ymgais i sicrhau bob pawb yng Nghymru yn derbyn gwaith teg. Yn 2021, lansiodd [gwefan Cyflog Byw i Gymru](#).

Y Rôl

Mae Cynnal Cymru ynghanol cyfnod cyffrous ac yn ehangu'n tîm, yn benodol er mwyn lledaenu neges y Cyflog Byw go iawn yng Nghymru. Yr ydym yn chwilio am weinyddwr profiadaol i hyrwyddo proses achredu'r Cyflog Byw, ac i gefnogi materion AD.

Mae Cynnal Cymru yn sefydliad dwyieithog, felly mae'r gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â Saesneg, yn ddymunol.

Bydd y Swyddog Gweinyddol yn gweithio o dan arweiniad ac oruchwyliaeth y Swyddog Rhaglen Cyflog Byw newydd a'r Cyfarwyddwr. Yr ydym yn chwilio am ymgeisydd sy'n meddu ar sgiliau trefniadol, ysgrifenedig a llythrennedd digidol ardderchog, sydd yn gallu dysgu prosesau newydd a bod yn flaengar a sydd â phrofiad o gefnogaeth AD.

Cyfrifoldebau allweddol

Gweinyddu'r Cyflog Byw

- Arwain ar weinyddu ac achredu'r Cyflog Byw yng Nghymru gan ddefnyddio'r system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid CRM.
- Cydgysylltu ac ymateb i ymholiadau ynghylch y Cyflog Byw gan staff, cwsmeriaid, aelodau, rhanddeiliaid a'r cyfryngau.
- Cydweithio gyda'r Swyddog Rhaglen Cyflog Byw i gadw'r wefan livingwagewales.com yn gyfredol.
- Trefnu a mynychu cyfarfodydd, llunio agendâu a chadw cofnodion cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Cyflog Byw, at lefel genedlaethol a rhanbarthol.

AD

- Sicrhau bod pob cyflogai newydd yn cael eu hymsefydlu ac yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau Iechyd, Diogelwch ac argyfwng, a bod yr holl ffurflenni perthnasol y cael eu llofnodi'n brydlon a'u trosglwyddo i'r adran gyllid.
- Cadw ffeiliau personol yn gyfredol a chyfrinachol a bod yr holl ffurflenni angenrheidiol yn eu lle.
- Rheoli'r system gwyliau staff
- Adnabod gofynion hyfforddiant a threfnu hyfforddiant angenrheidiol i'r staff
- Cefnogi creu fframwaith cyflog
- Cefnogi creu fframwaith datblygu staff
- Yn ôl y gofyn, ac mewn cysylltiad â'r rheolwyr llinell, cefnogi'r gwaith o gynnal gwerthusiadau perfformiad i'r holl staff perthnasol
- Cynnal cyfweiliadau gadael

Manyleb y Person

Hanfodol

- Sgiliau trefnu ardderchog, gan gynnwys rheoli amser a rhoi sylw i fanylion
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar y ffôn, yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Profiad o ddefnyddio Salesforce neu becynnau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid CRM tebyg, NEU hanes o lwyddiant wrth feistrolu becynnau neu raglenni cyfrifdurol newydd yn gyflym
- Profiad o drefnu cyfarfodydd mawr gyda rhanddeiliaid amrywiol
- Profiad o ddefnyddio platfformau cyfathrebu a chynadledda megis Microsoft Teams a Zoom
- Gwybodaeth dda o Microsoft Office gan gynnwys Word, PowerPoint, Excel a ffeilio digidol yn Microsoft Sharepoint
- Profiad o gynorthwyo systemau a phrosesau AD
- Profiad o gadw cofnodion ar lefel bwrdd
- Gweinyddu ariannol sylfaenol

Dymunol

- Yr iaith Gymraeg (sgliau da ar lafar ac yn ysgrifenedig)
- Gradd gyntaf, HND neu mwy na 3 blynedd o brofiad gweinyddol/AD
- Profiad o drefnu a chynnal prosiectau a digwyddiadau
- Gwybodaeth am, a chefnidir mewn cynaliadwyedd
- Profiad o ddiweddarau cynnwys gwefan a chreu cylchlythyron digidol
- Profiad o gydweithio gyda, a goruchwylio, gwahanol grwpiau o randdeiliaid

A wnewch chi anfon eich ffurfeln gais, ynghyd â'r ffurflen cyfleoedd cyfartal, at jobs@cynnalcyrmru.com

Am wybodaeth bellach ynghylch y rôl hon cysylltwch, os gwelwch yn dda, â Lynsey Jackson, Rheolwr y Rhaglen yn lynsey@cynnalcyrmru.com

Gwybodaeth Bellach

Arfer Gwaith

Yr ydym yn cydnabod gwerth creu cydbwysedd rhwng y gwaith a bywyd cartref, felly 'rydym yn gwneud ein gorau i ddarparu ar gyfer gweithio hyblyg. Mae'r wythnos waith yn cynnwys hyd at bedwar diwrnod (30 awr).

Yr ydym yn ceisio, yn weithredol, cyrraedd cronfa amrywiol o ymgeiswyr, ac yn hapus i ystyried unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar weithwyr posib er mwyn iddynt fod yn llwyddiannus.

- Wythnos waith pedwar diwrnod (Dydd Llun – dydd Iau fel rheol)
- Gweithio hyblyg / Gweithio hybrid

Mae ein swyddfa wedi'i lleoli yng nghanol Caerdydd, ac yn hygyrch iawn ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Ar hyn o bryd, er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau Covid cyfredol, yr ydym yn gweithredu model gweithio hybrid, lle y mae'r staff yn gweithio rhwng y swyddfa a'r cartref.

Cyfweliadau

Mae Cynnal Cymru yn defnyddio proses recriwtio dall.

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, i drafod unrhyw beth sydd ei angen arnoch o ran cael mynediad at, a chymryd rhan yn, y broses gyfnewid, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill am y broses ymgeisio.

Os byddwch yn derbyn gwahoddiad i fynychu cyfweiliad am y swydd, rhowch wybod os hoffech i ni ad-dalu unrhyw gostau gofal roedd rhaid eu talu i'ch galluogi chi i fynychu'r cyfweiliad.

Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Cynnal Cymru wedi'i ymrwymo at ddarparu cyfleoedd cyfartal am gyflogaeth ar draws ei holl rhaglenni gwaith a phenderfyniadau. Yr ydym yn cydnabod bod mudiad amrywiol a chynhwysol yn hollbwysig os yr ydym am ddatrys newid yn yr hinsawdd a heriau cynaliadwyedd eraill, a bod rhaid sicrhau bod y bobl hynny yr effeithir arnynt yn uniongyrchol – yn enwedig y rhai hynny a eithriwyd yn y gorffennol – wrth galon y mudiad ar gyfer newid.

'Rydym yn gwneud ein gorau glas i wneud ein swyddi'n hygyrch i bob aelod tîm posibl, waeth beth yw eu hil, lliw, tarddiad cenedlaethol, ethnigrwydd, oedran, anabledd, rhyw penodedig, mynegiant neu hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd neu hunaniaeth rhywiol, crefydd neu gredo, statws cyn-filwr a statws priodasol neu riant. Anelwn at recriwtio aelodau tîm o gymunedau sydd wedi'u heffeithio gan newid yn yr hinsawdd, neu gan agweddau eraill ar anghyfiawnderau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Felly, 'rydym yn annog yn gryf ceisiadau gan bobl groenliw, menywod, pobl LHDTTC+ ac aelodau o gymunedau a ymyleiddiwyd.

Cynladwyedd

Yr ydym yn disgwyl y byddwch yn cyflawni cyfrifoldebau eich swydd mewn ffordd gynaliadwy, gan sicrhau eich bod yn gwneud cyn lleied â phosib o ddifrod i'r amgylchedd. Ein nod yw sicrhau bod yr holl adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn foesebol.

Polisi Iaith Gymraeg

Wrth wneud ein gwaith yr ydym yn ceisio bod mor ddwyieithog â phosib yn ein gwaith bob dydd, ac yn trin yr iaith Saesneg a'r iaith Gymraeg mewn ffordd gyfartal cyhyd â bod hynny, o dan yr amgylchiadau, yn briodol ac yn gymharol ymarferol.